

Etholiad Cyffredinol 2017



Children in Wales
Plant yng Nghymru

Mae'r Prif Weinidog, Theresa May, wedi galw etholiad cyffredinol ar gyfer y Deyrnas Unedig. Bydd yr etholiad yn cael ei gynnal ar 8 Mehefin 2017. Etholiad cyffredinol yw pan fydd pob rhan o'r DU yn pleidleisio am bwy maen nhw ei eisiau'n Aelod Seneddol. Mae 650 o ASau ledled y DU.

Yng Nghymru, bydd etholwyr cofrestredig yn ethol 40 o ASau i'r Senedd. Ar hyn o bryd mae 25 o ASau gan Blaid Lafur Cymru, 11 o ASau gan Blaid Geidwadol Cymru, 3 AS Plaid Cymru ac 1 AS Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mae'r papur briffio hwn yn disgrifio isod y prif bolisiau sydd wedi cael eu cyhoeddi ym maniffestos y pleidiau sy'n sefyll i'w hethol yng Nghymru.

Y Blaid Lafur

Cyhoeddodd y Blaid Lafur ei maniffesto ar 17 Mai, dan y teitl For the Many, Not the Few. Y neges allweddol oedd creu Prydain decach sy'n gweithio i bawb. Y polisiau pennaf sy'n effeithio ar Gymru yw:

Ailwladoli

- Dod â'r rheilffyrdd yn ôl i mewn i berchnogaeth gyhoeddus
- Gwrthdroi preifateiddio Royal Mail Creu cwmnïau ynni sydd mewn perchnogaeth gyhoeddus ym mhob ardal y DU

Economi

- Cymryd mwy o dreth incwm o'r 5% uchaf o enillwyr ac ailgyflwyno'r gyfradd dreth 50c ar £80,00 neu'n uwch
- Hybu cyflogau 5.7 miliwn o bobl sy'n ennill llai na'r isafswm cyflog i £10 yr awr erbyn 2020
- Creu Cronfa Trawsfurfio Gwladol i uwchraddio'r economi
- Creu a Banc Buddsoddiad Gwladol

Hawliau gweithwyr

- Rhoi terfyn ar gontractau dim oriau
- Codi'r uchafswm cyflog i o leiaf £10 yr awr
- Gwahardd interniaethau di-dâl
- Gwarantu hawl i undebau llafur gael mynediad i weithleoedd
- Dileu ffioedd tribiwnlysoedd cyflogaeth
- Rhoi hawliau cyfartal i bob gweithiwr, p'un a yw'n gweithio'n rhan-amser, amser llawn, dros dro neu'n barhaol

Addysg

- Ailgyflwyno grantiau cynhaliaeth i fyfyrwyr prifysgol a dileu ffioedd dysgu

Iechyd a gofal cymdeithasol

- Dileu cap tâl y GIG
- £30 biliwn ychwanegol ar gyfer y GIG yn ystod y Senedd nesaf
- Clustnodi cyllidebau iechyd meddwl
- Nawdd Cymdeithasol a Phensiynau
- Diddymu'r 'dreth ystafelloedd gwely'
- Ailgyflwyno budd-dâl tai i bobl dan 21 oed

Ynni

- Cyflwyno cap ar brisiau ynni'n syth
- Cynnal mynediad i farchnad ynni fewnol yr UE

Trafnidiaeth

- Trydaneiddio'r rheilffyrdd gan gynnwys yng Nghymru

Teuluoedd a chymunedau

- Dileu'r hyn sy'n cael ei alw'n "gymal trais" – rhan o'r polisi o gyfyngu credydau treth plant i'r ddau blentyn cyntaf mewn teulu

Democratiaeth

- Adeiladu ar Fanc Adeiladu Cymru gan ddefnyddio mwy na £10bn o Fanc Buddsoddiad Gwladol newydd Llafur

Mudo

- Ni fydd yn gosod cap ar fewnfudo
- Ni fydd myfyrwyr rhyngwladol yn cael eu cynnwys yn y niferoedd mewnfudo

Brexit

- Derbyn canlyniad refferendwm Brexit ac adeiladu perthynas newydd agos â'r UE
- Gwarantu hawliau dinasyddion yr UE yn y DU
- Sicrhau rôl ystyrion i'r Senedd drwy gydol negodiadau Brexit
- Dileu'r Papur Gwyn presennol ar Brexit a'i ddisodli â blaenoriaethau newydd sy'n cynnwys cadw manteision y farchnad sengl a'r undeb tollau

You can access the full manifesto online at www.labour.org.uk/manifesto2017 and a summary of the main points can be found on the BBC website at <http://www.bbc.co.uk/news/election-2017-39933116>.





Democratiaid Rhyddfrydol

Cyhoeddodd y Democratiaid Rhyddfrydol eu manifesto ar 17 Mai 2017, a'u neges allweddol yw bod y blaid yn bwriadu dylanwadu ar ddyfodol Prydain drwy ddod y brif wrthblaid.

Ymhlith y prif addewidion yn y manifesto mae:

Brexit

- Ail refferendwm ar fargen Brexit
- Gwarantu hawliau dinasyddion yr UE yn y Deyrnas Unedig
- Aelodaeth y farchnad sengl a'r undeb tollau
- Amddiffyn rhyddid symudiad a chynlluniau'r UE sy'n cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc
- Amddiffyn hawliau cymdeithasol fel absenoldeb mamolaeth

Iechyd a gofal cymdeithasol

- Codiad o 1c yn y bunt ar dreth incwm er mwyn codi £6bn am y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol
- Ymdrin â'r stigma yn erbyn afiechyd meddwl
- Cynyddu'r maint gall pobl ei ennill cyn colli Lwfans Gofalwyr o £110 i £150 yr wythnos
- Ymdrin â gordewdra ymhlith plant

Addysg

- Buddsoddi bron £7bn ychwanegol mewn addysg
- Adfer grantiau cynhaliath prifysgol i'r myfyrwyr tlotaf
- Dyblu nifer y busnesau sy'n hurio prentisiaid
- Herio stereoteipio ar sail rhyw a rhywioli cynnar

Economi

- Gosod band eang gwibgyswllt, opteg ffibr ar darws y DU
- Codi trothwy yswiriant gwladol cyflogeion i'r trothwy treth incwm
- Sicrhau bod y sawl â'r incymau a'r cyfoeth uchaf yn gwneud cyfraniad teg
- Dileu camdriniaeth drwy gcontractau dim oriau
- Annog cyflogeion i hyrwyddo perchnogaeth gan gyflogeion

Tai

- Sicrhau bod o leiaf pedwar miliwn o gartrefi yn cael eu gwneud yn ynni-ffeithlon erbyn 2022, gan roi blaenoriaeth i aelwydydd sy'n dioddef tlodi tanwydd
- Buddsoddiad yn yr isadeiledd ffyrdd a rheilffyrdd

Teuluoedd a chymunedau

- Mis ychwanegol o absenoldeb tadolaeth am dâl
- Cymryd 13,000 o blant allan o dlodi drwy adael i'r ddau riant ennill cyn i'w Credyd Cynhwysol gael ei gwtogi
- Gwrthdroi toriadau i lwfansau gwaith mewn credyd cynhwysol a budd-dâl tai i bobl 18-21 oed – codi'r lwfans ceisio gwaith a chredyd cynhwysol i bobl 18-24 oed
- Codi cyfradd budd-daliadau oedran gweithio o leiaf yn unol â chwyddiant
- Rhoi'r gorau i'r polisi dau blentyn ar fudd-daliadau plant a dileu'r 'cymal trais'
- Dileu'r 'dreth ystafelloedd gwely' a'r asesiad galluogrwydd am waith

Cyffuriau a phlismona

- Cyflwyno marchnad gyfreithiol, wedi ei rheoleiddio, ar gyfer canabis
- £300m ar gyfer plismona cymunedol yng Nghymru a Lloegr
- Disodli Comisiynwyr Heddlu a Throsedd gyda byrddau heddlu sy'n cynnwys cynghorwyr lleol

Ymfudo

- Pleidleisio yn erbyn ymdrechion i ddileu'r Ddeddf Hawliau Dynol neu dynnu allan o Gonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol
- Cynnig llwybrau diogel a chyfreithiol i'r DU ar gyfer ffoaduriaid – cynnig lloches i 50,000 o ffoaduriaid Syriaidd dros bum mlynedd
- Ailagor cynllun Dubs i gymryd 3,000 o blant di-gwmni sy'n ffoaduriaid o Ewrop

Democratiaeth

- Pleidleisiau i bobl 16 mlwydd oed
- Cyflwyno'r bleidlais drosglwyddadwy sengl am ethol ASau ledled y DU
- Datganoli mwy o bwerau i Gymru

Gallwch ddarllen y manifesto yn <http://www.libdems.org.uk/manifesto> a chrynodeb yn <http://www.bbc.co.uk/news/election-2017-39946809>.

Y Blaid Geidwadol

Cyhoeddodd y Ceidwadwyr eu manifesto am yr etholiad ar 18 Mai 2017. Neges allweddol y ddogfen oedd darparu arweinyddiaeth "gryf a sefydlog" drwy gydol proses Brexit.

Mae'r manifesto yn codi "Pum her fawr" a fydd yn cynnwys yr angen am economi cryf; Brexit a byd newidiol; rhaniad cymdeithasol parhaus; cymdeithas sy'n heneiddio; a thechnoleg sy'n newid yn gyflym. Ymhlith y polisiau allweddol yn y manifesto sy'n effeithio ar Gymru mae:

Economi a busnes

- Cynyddu'r lwfans treth personol i £12,500 a'r gyfradd uwch i £50,000 erbyn 2020
- Darparu'r ffyrdd, rheilffyrdd, meysydd awyr a band eang mae eu hangen ar fusnesau
- Codi'r doll ar gwmnïau sy'n cyflogi gweithwyr sy'n ymfudwyr
- Torri treth gorfforaeth i 17% erbyn 2020
- Diwygio trethi busnes
- Symleiddio'r system dreth
- Rheoleiddio'n fwy effeithlon, gan gwtogi 'tâp coch'

Hawliau gweithwyr

- Codi'r cyflog byw cenedlaethol i 60% o enillion canolrif erbyn 2020
- Sicrhau bod pobl sy'n gweithio yn yr economi 'gig' yn cael eu hamddiffyn
- Newid y gyfraith i sicrhau bod cwmnïau rhestrredig yn enwebu cyfarwyddwr o'r gweithlu
- Cyflwyno hawl i gyflogeion ofyn am wybodaeth ynghylch cyfeiriad y cwmni yn y dyfodol

Addysg

- Pump £4bn extra into schools by 2020
- If universities want to charge maximum tuition fees, they will be required to "become involved" in academy sponsorship or the founding of free schools
- Work to build up the investment funds of universities across the UK

Iechyd

- Cynyddu gwariant ar y GIG gan o leiaf £8bn mewn termau real dros y pum mlynedd nesaf
- Ei gwneud yn ofynnol i weithwyr tramor a myfyrwyr tramor dalu mwy i gwmpasu cost gofal

Ymfudo

- Ymrwymiad i "roi pwysau ar fewnfudo o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd" drwy bob llwybr fisa
- Torri mewnfudo i lai na 100,000
- Disgwyl o fyfyrwyr adael y wlad ar ddiwedd eu cwrs oni bai eu bod yn diwallu gofynion "uwch" newydd sy'n gadael iddynt aros
- Myfyrwyr tramor i aros yn yr ystadegau mewnfudo

Brexit

- Gadael y farchnad sengl Ewropeaidd a'r undeb tollau
- Pleidlais yn nau Dŷ'r Senedd ar y "cytundeb terfynol" am Brexit
- Cytuno telerau partneriaeth dyfodol â'r UE ochr yn ochr

â thynnu allan, y ddau beth o fewn y ddwy flynedd a ganiateir o dan Erthygl 50

- Aros yn llofnodwyr Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol am y senedd nesaf
- Lleihau a rheoli mewnfudo o Ewrop ar ôl Brexit
- Seek atgynhyrchu'r holl gytundebau masnach rydd presennol yr UE
- Cyflwyno Bil Masnach yn y senedd nesaf
- Ailgyntu y Bwrdd Masnach i gynyddu allforion o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ogystal â Lloegr

Gallwch lawrlwytho copi o fanifesto'r Ceidwadwyr o'u gwefan yn www.conservatives.com/manifesto. Mae crynodeb o'r prif bwyntiau ar gael ar wefan y BBC yn <http://www.bbc.co.uk/news/election-2017-39960311>.

Mae Ceidwadwyr Cymru wedi cyhoeddi fersiwn o'r manifesto yn benodol i Gymru hefyd. Dywed y manifesto fod y Ceidwadwyr yn dymuno bod yn rym er da lleded y Deyrnas Unedig gyfan.

Mae'r addewidion yn cynnwys:

- Hybu economi Gogledd Cymru gyda chytundeb twf
- Dileu'r tollau ar bontydd Hafren i'r holl draffig
- Cronfa ffyniant newydd i ddisodli cymorth yr Undeb Ewropeaidd yn dilyn Brexit
- Datganoli mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol yn dilyn Brexit
- Moderneiddio'r isadeiledd rheilffyrdd gyda threnau a gorsafoedd newydd
- Mwy o bwerau i Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd

Mae manifesto Cymru i'w weld ar-lein yn <https://www.welshconservatives.com/manifesto>.



Plaid Cymru

Cyhoeddodd Plaid Cymru eu Cynllun Gweithredu am etholiadau 2017 ar 16 Mai, gan addo amddiffyn Cymru o 'don llanw o ymosodiadau.' Mae Plaid yn dweud bod angen amddiffyn hunaniaeth, economi a democratiaeth Cymru. Mae'r manifestio yn gwneud yr ymrwymadau canlynol:

Brexit:

- Sicrhau y gall Cymru barhau i brynu a gwerthu i Ewrop heb rwystrau costus
- Gwarantu hawliau Ewropeaid sy'n byw yng Nghymru
- Brwydro i gael y fargen Brexit orau bosibl i ddiwydiant ac amaethyddiaeth Cymru

Democratiaeth

- Cyflwyno cyfraith newydd i amddiffyn sofraniaeth a democratiaeth Cymru
- Pwyso am gomisiwn newydd i oruchwylio dosbarthiad arian ledled y DU
- Rhoi'r hawl i bobl 16 a 17 oed bleidleisio a diwygio'r system bleidleisio i fod yn fwy cynrychioliadol
- Rhoi llais cyfartal i Gymru wrth i benderfyniadau gael eu gwneud sydd â goblygiadau i swyddogaethau datganoledig

Economi

- Sicrhau bod £4.3 biliwn mewn contractau sector cyhoeddus yn cael eu gwario yng Nghymru a chyflwyno Cyflog Byw
- Cyflwyno a rhaglen fuddsoddi £7.5 biliwn i ariannu prosiectau isadeiledd
- Cyflwyno banc a ariennir yn gyhoeddus a Banc Datblygu Cymru i fuddsoddi ym musnesau Cymru

Iechyd a gofal cymdeithasol

- Hyfforddi a Recriwtio 1000 o feddygon a 5000 o nyrsys ychwanegol
- Sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu'n ddi-dor. Cyflwyno contract gofawyr i gefnogi'r sawl sy'n gofalu am bobl eraill.
- Lleihau marwolaethau osgoadwy drwy weithredoedd iechyd y cyhoedd a hyrwyddo newidiadau mewn dulliau o fyw
- Pwyso am gyfran Cymru o'r £350 miliwn a addawyd i'r GIG gan ymgyrch Gadael yr Undeb Ewropeaidd
- Galw am fynediad gwell i gwnsleriaid hyfforddedig a therapyddion yn y gymuned

Nawdd cymdeithasol:

- Datganoli pwerau dros nawdd cymdeithasol i Gymru
- Dileu'r 'dreth ystafelloedd gwely' a gwrthwynebu'r 'cymal trais' a newidiadau i gefnogaeth profedigaeth
- Helpu pobl anabl i mewn i waith heb gosbau

Gofal plant ac addysg

- Lleoedd meithrin amser llawn am ddim i bob plentyn tair blwydd oed
- Codi safonau addysg drwy wella cyflogu a hyfforddiant athrawon
- Creu cymhelliant i fyfyrwyr sy'n aros neu'n dychwelyd i Gymru i fyw a gweithio ar ôl graddio

- Gwarantu cyfleoedd cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant i unrhyw un dan 25 oed. Creu rhwydwaith newydd ar gyfer Colegau Cenedlaethol Addysg Alwedigaethol newydd i blant 14 oed ac yn hŷn
- Cynyddu argaeledd addysg gyfrwng Cymraeg

Cysylltu Cymru

- System drafnidiaeth drwy Gymru-gyfan, gan gynnwys gwell gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd a llwybrau cerdded a seiclo integredig
- Band eang gwibgysyllt i Gymru gyfan a signal symudol 5G ledled y wlad

Heddlu, cyfiawnder a hawliau

- Gwrthdroi toriadau i gymorth cyfreithiol a chyflwyno cyfreithiau ar amddiffyn factimau troseddau fel trais a chamdriniaeth ddomestig
- Creu awdurdodaeth gyfreithiol Gymreig i adlewyrchu anghenion Cymru
- Cyhoeddi siarter hawliau dynol i Gymru i amddiffyn yn erbyn y bwriad i ddileu Deddf Hawliau dynol

Ynni a'r amgylchedd

- Cynyddu ynni o ffynonellau adnewyddadwy. Datganoli cyfrifoldeb dros eneradu ynni Cymru
- Creu cwmni ynni Cymreig i ddefnyddio elw o adnoddau Cymru i dorri cost ynni
- Cynllun cenedlaethol i wneud y stoc dai yn fwy ynni-efeithlon
- Cyflwyno Deddf Newid yn yr Hinsawdd newydd ac adeiladu ar ddeddfwriaeth amgylcheddol yr UE.

Bywyd gwledig

- Ceisio cymeradwyaeth pob un o wledydd y DU cyn i unrhyw fargen fasnach gael ei llofnodi
- Cyflwyno rheoleiddiwr tollau tanwydd i atal costau tanwydd cynyddol

Mae Cynllun Gweithredu Plaid Cymru i'w weld ar-lein yn <http://www2.partyof.wales/actionplan17>. Mae crynodeb ar gael ar wefan y BBC yn <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-39934132>.





Y Blaid Werdd

Lansiodd y Blaid Werdd ei manifesto ar 22 Mai, gan alw am “Brydain hyderus a gofalgar y gallwn i gyd ymfalchïo ynddi.” Y prif addeiwidion a gafodd eu cyhoeddi yw:

Economi

- Creu rhwydwaith o fanciau pobl lleol
- Ymdrin yn llym ag osgoi treth
- Diwygio treth i gynnwys treth gyfoeth ar yr 1% o enillwyr uchaf
- Treth Robin Hood ar drafodion ariannol gwerth uchel
- Dileu'r cap ar yswiriant gwladol cyflogaion yn raddol
- Cefnogi a hyrwyddo busnesau bach, cydweithfeydd a chwmnïau cydfuddiannol a chyflwyno band eang cyflymder uchel
- Cefnogi busnesau sy'n cychwyn a mentrau creadigol

Amgylchedd

- Cyflwyno Deddf Amddiffyn yr Amgylchedd
- Buddsoddiad mewn inswleiddio i wneud cartrefi'n gynhesach, amddiffynfeydd rhag llifogydd a rheoli llifogydd yn naturiol
- Mynediad cyfartal i natur a mannau gwyrdd
- Cyfyngu'r codiad yn y tymheredd byd-eang i 2 radd
- Disodli ffracio, gorsafoedd pŵer nwy ac ynni niwclear ag ynni glân, effeithlon
- Buddsoddi mewn ynni sydd ym mherchnogaeth y gymuned
- Amddiffyniad cryf i'r Llain Werdd, Parciau Cenedlaethol, SoDdGA ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
- Gweithredu i leihau plastig a gwastraff arall

Brexit

- Refferendwm ar y cytundeb i Brydain adael yr UE
- Aros o fewn farchnad sengl Ewrop, a diogelu hawliau i bobl a'r amgylchedd
- Gwarantu hawliau dinasyddion yr UE i aros yn y DU a cheisio trefniadau ar gyfer dinasyddion y DU yn yr UE

Hawliau gweithwyr

- Cymryd camau tuag at gyflwyno incwm sylfaenol cyffredinol
- Cyflwyno wythnos weithio 4 diwrnod yn raddol
- Lleihau'r bwlch rhwng y cyflogu uchaf ac isaf a chodi'r

isafswm tâl i £10 yr awr erbyn 2020

- Rhoi terfyn ar y bwlch tâl rhwng y rhywiau
- Rheolau masnach sy'n parchu hawliau, safonau llafur ac amgylcheddol ac ymrwymadau newid yn yr hinsawdd
- Dileu bandiau tâl sy'n gysylltiedig ag oedran

Gwasanaethau cyhoeddus

- Cynyddu arian i awdurdodau lleol
- Adolygu effeithiolrwydd sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu strwythuro

Addysg

- Cynyddu arian ar gyfer ysgolion fel bod gwariant mewn termau real yn cynyddu
- Dileu ffioedd dysgu prifysgolion ac adfer grantiau cynhaliaeth
- Gwrthod strategaeth Prevent a dilyn dulliau yn y gymuned i ymdrin ag eithafiaeth
- Cyflwyno addysg wleidyddol ddiudedd a dinasyddiaeth weithgar

Social security

- Adfer budd-dâl tai i bobl dan 21 oed
- Creu system fudd-daliadau sy'n rhoi hyder i bobl y byddant yn derbyn cymorth pan fydd arnynt ei angen
- Dileu'r 'dreth ystafelloedd gwely'

Trafnidiaeth

- Ail-wladoli'r rheilffyrdd
- Buddsoddi mewn cysylltiadau rheilffordd a thrydaneiddio'r holl reilffyrdd

Teuluoedd a chymunedau

- Ymdrin â hiliaeth a gwahaniaethu sy'n seiliedig ar ffydd neu anabled
- Cydraddoldeb gwirioneddol i bobl LGBTIQ+, hawliau cyfartal i barau rhywedd cymysg gael Partneriaeth Sifil

Democratiaeth

- Gostwng yr odran pleidleisio i 16
- Cyflwyno Cynrychiolaeth Gyfrannol ar gyfer theoliadau seneddol a lleol
- Cynyddu amrywiaeth ym myd gwleidyddiaeth
- Disodli Tŷ'r Arglwyddi ag ail siambr etholedig
- Amddiffyn Deddf Hawliau Dynol ac ECHR
- Adfer arian am y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Rhoi pleidlais i'r Senedd am gytundebau masnach newydd
- Adfer rôl undebau llafur democrataidd

Ymfudo

- System fewnfudo a lloches drugarog
- Ymdrin â thrais ar sail rhywedd, trais a chamdriniaeth rywiol, FGM a masnachu pobl

Mae'r manifestu llawn ar gael yn <https://www.greenparty.org.uk/green-guarantee/>. Mae crynodeb o'r ddogfen ar gael ar wefan y BBC yn <http://www.bbc.co.uk/news/election-2017-40003019>.

Plaid Annibyniaeth y DU (UKIP)

Lansiodd Plaid Annibyniaeth y DU ei manifesto ar 25 Mai 2017, dan y teitl Britain Together. Mae'r manifesto yn addo bod yn "gŵn gwarchod Brexit."

Mae'r prif addewidion a gyhoeddwyd yn canolbwyntio ar faterion mewnfudo a gadael yr UE, sef:

Brexit

- Gadael awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop, marchnad sengl yr Undeb Ewropeidd, a'r undeb tollau
- Adfer "sofraniaeth forol gyflawn"
- Peidio â thalu unrhyw arian "ysgaru" i'r UE, na chyfrannu at gyllideb yr UE
- Gorffen proses Brexit erbyn diwedd 2019
- Adfer y pasbort Prydeinig glas clasurol a gafodd ei ddisodli ym 1988

Economi:

- Tynnu TAW o filiau ynni domestig
- Codi'r lwfans treth personol allowance i £13,500 a chodi'r trothwy 40% i £55,000
- Codi trothwyon treth etifeddiaeth
- Cyflwyno mesurau i atal corfforaethau mawr rhag defnyddio "cynlluniau osgoi treth ymosodol"

Tai

- Darparu 100,000 o gartrefi ar gyfer pobl iau
- Cyflwyno cartrefi modiwlaid a adeiladir mewn ffatri, a hynny'n lleol
- Caffael safleoedd tir llwyd drwy brynu'n orfodol er mwyn adeiladu tai fforddiadwy
- Lansio adolygiad o weithrediad Cymdeithasau Tai
- Trafnidiaeth a'r amgylchedd
- Gwrthwynebu ehangu Maes Awyr Heathrow o blaid ehangu meysydd awyr rhanbarthol
- Rhoi'r gorau i HS2
- Dileu tollau ffyrdd ar ffyrdd cyhoeddus
- Diwygio'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd

Iechyd

- Cynyddu lleoliadau hyfforddi nyrsys ac adfer arian ar gyfer bwrsariâu
- Cwtogi'n llym ar ddinasyddion tramor anghymwys sy'n defnyddio'r GIG

Mewnfudo

- Rhoi terfyn ar ryddid symud rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeidd
- Anelu at leihau ymfudo net i ddim dros gyfnod pum mlynedd, gyda pholisi "un i mewn, un allan"
- Moratoriwm ar fewnfudo dim sgiliau a sgiliau isel am bum mlynedd yn dilyn Brexit
- Mynnu bod mewnfudwyr newydd yn talu treth am bum mlynedd cyn iddynt fod yn gymwys i dderbyn buddaliadau a gwasanaethau'r GIG heblaw triniaeth frys

Addysg

- Adfer grantiau cynhaliath prifysgol
- Rhoi'r gorau i gynnig benthyciadau myfyrwyr i ddinasyddion yr Undeb Ewropeidd yn dilyn Brexit
- Nawdd cymdeithasol
- Gwrthdroi toriadau i gyllidebau gofal a rhoi £2bn i mewn i ofal cymdeithasol bob blwyddyn
- Cynyddu'r Lwfans Gofalwyr i gyd-fynd â lefel uwch y Lwfans Ceisio Gwaith (£73.10)
- Dileu'r dreth ystafelloedd gwely
- Gwrthdroi toriadau i gyllidebau gofal a rhoi £2bn y flwyddyn i mewn i ofal cymdeithasol

Polisi tramor

- Lleihau'r gyllideb cymorth tramor yn fawr iawn a'i gwario ar flaenoriaethau cartref fel y GIG
- Cyfiawnder
- Gwahardd llysoedd Sharia a gwisgo gorchuddion dros yr wyneb mewn manau cyhoeddus

Dyfodol y DU

- Cynnal refferendwm sy'n cael ei ddewis gan y cyhoedd bob dwy flynedd gyda'r canlyniad yn rhwymo'n gyfreithiol ac yn cael ei gynnwys yn Araith y Frenhines
- Cyflwyno system o gynrychiolaeth gyfrannol
- Diddymu Tŷ'r Arglwyddi
- Cyflwyno Senedd ar gyfer Lloegr

